Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Plant Parciau**

**Griffiths Crossing**
**Caernarfon**
**LL55 1TS**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

06/09/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn âPlant Parciau

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarpeir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Person Cofrestredig | Rhiain Ackers |
| Lleoedd cofrestredig | 56 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 12 Hydref 2022 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Na |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hybu'r iaith Gymraeg a'i diwylliant? | Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu yn y lleoliad. Maent yn gwneud dewisiadau am sut i dreulio'u hamser ac yn teimlo'n ddiogel a hyderus yn y lleoliad gan eu bod wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r staff ac â'i gilydd. Mae'r plant yn mwynhau'r gweithgareddau sydd ar gael iddynt, ac maent yn dysgu sgiliau cymdeithasol cadarnhaol drwy gymryd rhan yn y gweithgareddau yma gyda'u ffrindiau.

Mae gan y staff ddealltwriaeth addas o'u cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn siarad â nhw mewn ffordd gynnes a chyfeillgar. Mae'r staff yn cynllunio amrywiaeth o brofiadau chwarae diddorol i'r plant er mwyn eu helpu i ddatblygu sgiliau cymdeithasol cadarnhaol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod pob ardal a ddefnyddir gan y plant yn ddiogel ac yn groesawgar. Mae'r teganau a'r adnoddau o ansawdd da ac yn cynnig digon o gyfleoedd i'r plant ddysgu a meithrin eu sgiliau.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymrwymedig i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei reoli'n effeithiol. Maent yn rhannu eu gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth â'r staff, gan eu helpu i ddilyn polisïau a gweithdrefnau yn effeithiol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymdrechu i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da i'r plant a'u teuluoedd.

## Llesiant **Da**

Mae'r plant yn hapus a chyfforddus yn y lleoliad. Maent yn gwneud penderfyniadau am sut i dreulio eu hamser yn y lleoliad ac yn hyderus i gyfathrebu eu hanghenion i staff. Er enghraifft, maent yn gofyn am deganau a gweithgareddau o ardal arall, gan wybod y bydd staff yn eu helpu. Maent yn symud yn rhwydd o amgylch y gweithgareddau sydd ar gael ac yn dilyn diddordebau eu hunain. Mae'r plant ieuengaf hefyd yn cael dilyn eu trefn a'u hoffterau unigol wrth gysgu a bwyta byrbrydau pan maent yn dewis, ac mae staff yn cynllunio o gwmpas hyn. Er enghraifft, pan mae plant wedi blino yn ystod amser cinio gallant fynd i gysgu ac mae'r staff yn cadw bwyd i un ochr fel eu bod yn medru ei fwyta yn hwyrach yn y prynhawn.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel gan eu bod yn cael gofal gan aelodau o staff y maent wedi meithrin cydberthnasau cynnes â nhw. Maent yn teimlo'n gyfforddus i ofyn i'r staff am gysur pan fydd angen arnynt. Er enghraifft, drwy fynd at y staff i gael cysur ar ôl syrthio neu os oeddant wedi blino. Mae'r plant yn hyderus i siarad gydag oedolion eraill sy'n ymweld â'r lleoliad gan eu bod yn teimlo'n ddiogel a sicr. Mae'r plant yn gwneud ffrindiau ac yn sgwrsio â'i gilydd yn ystod amser cinio ac yn ystod amseroedd chwarae a gweithgareddau, gan wenu a chwerthin yn aml wrth iddynt wneud hynny.

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae ac yn canolbwyntio'n dda wrth archwilio'r amrywiaeth o weithgareddau sydd ar gael iddynt. Maent yn awyddus i gynnwys y staff yn eu chwarae. Er enghraifft, roedd plant yn awyddus i staff ddarllen llyfrau iddynt ac i ymuno mewn gemau cuddio gyda nhw. Maent yn awyddus Iirannu eu gwaith gyda staff gan wybod y bydd staff yn eu canmol a dathlu eu llwyddiannau. Er enghraifft, roedd plant yn awyddus i ddangos eu gwaith celf i'r staff ac yn gwenu wrth i'r staff ganmol eu hymdrechion.

Mae'r plant yn gwrando'n dda ac yn hapus i helpu gyda thasgau a dilyn cyfarwyddiadau. Er enghraifft, wrth iddynt olchi eu dwylo, ac wrth iddynt dacluso ar ddiwedd gweithgaredd. Mae'r plant yn chwarae'n dda gyda'i gilydd. Maent yn rhannu teganau, yn aros eu tro ac yn cydweithio i gwblhau tasgau'n dda. Er enghraifft, wrth iddynt chwilio am gardiau fflach siapiau oedd wedi eu cuddio yn yr ardal chwarae tu allan, roeddant yn cymryd tro ac yn helpu ei gilydd i ddarganfod y siapiau cudd, gan sgwrsio'n frwdfrydig gyda'i gilydd wrth chwilio.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth drwy gwblhau tasgau drostynt eu hunain. Er enghraifft, mae'r plant iau yn cael digon o amser i fwydo eu hunain yn ystod amser cinio, ac i olchi eu hwynebau a dwylo ar ol gorffen, gyda'r staff wrth law i'w cefnogi a'u hannog. Mae gan bob plentyn yr hyder i ddewis pa weithgareddau y mae am gymryd rhan ynddynt yn annibynnol.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o weithdrefnau'r lleoliad i sicrhau diogelwch plant, ac maent yn eu dilyn yn effeithiol. Mae pob un o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig. Cedwir cofnodion trylwyr o unrhyw ddigwyddiadau ac unrhyw dro mae staff yn gweinyddu unrhyw feddyginiaeth i blentyn. Cofnodir unrhyw ddamweiniau ar ffurflenni pwrpasol, gan nodi'r amgylchiadau, unrhyw anaf a'r camau a chymerwyd yn Dilyn y ddamwain. Fodd bynnag, nid yw'r cofnodion yma wastad wedi eu harwyddo gan staff a rhieni neu'n nodi rheswm nad ydynt wedi eu harwyddo. Mae'r staff yn hyderus o ran dilyn gweithdrefnau cywir os byddai ganddynt unrhyw bryderon am blentyn, ac maent wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu plant. Mae'r staff hefyd yn sicrhau y caiff ymarferion tân eu cynnal yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y plant a'r staff yn gwybod sut i adael y safle yn gyflym ac yn ddiogel mewn argyfwng. Fodd bynnag, nid yw'r cofnodion hyn yn cynnwys rhai Gwybodaeth a buasai'n galluogi staff i gynllunio ymarferion ar wahanol adegau a gyda phlant gwahanol.

Mae staff yn dilyn gweithdrefnau effeithiol er mwyn atal lledaenu haint. Maent yn annog y plant i olchi eu dwylo yn ôl yr angen ac yn dilyn y gweithdrefnau cywir wrth drin bwyd. Maent hefyd yn dilyn gweithdrefnau cywir wrth newid clytiau. Ar y cyfan, mae'r staff yn annog y plant i fwyta'n iach ac i yfed digon. Darperir cinio iach i blant, gyda dewisiadau eraill ar gael os nad yw plant yn hoffi'r prif ddewis neu os oes gan blentyn alergedd. Fodd bynnag, nid yw pob un o'r byrbrydau bore yn gytbwys. Mae staff yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd rheolaidd i dreulio amser yn yr awyr agored, gan sicrhau eu bod yn datblygu eu sgiliau corfforol.

Mae'r staff wedi ffurfio perthnasoedd cadarnhaol gyda'r plant ac maent yn siarad gyda nhw yn annwyl a'u trin gyda gofal a pharch. Maent yn defnyddio strategaethau effeithiol a chyson i hybu ymddygiad cadarnhaol yn unol â pholisi'r lleoliad. Er enghraifft, maent yn denu sylw plant at weithgaredd arall os ydynt yn cael trafferthion wrth rannu neu gymryd tro ac yn cynnig esboniad clir pan nad yw eu hymddygiad yn dderbyniol. Mae staff hefyd yn modelu medrau cymdeithasol yn effeithiol trwy chwarae wrth ochr y plant a modelu dweud diolch a chanmol ei gilydd yn ystod y gweithgareddau.

Mae'r staff yn darparu amrywiaeth o weithgareddau bydd o ddiddordeb i'r plant. Maent yn adnabod eu hoffterau unigol yn dda ac yn cynllunio gweithgareddau yn seiliedig ar hyn. Maent yn cynnig cymysgedd dda o weithgareddau dan do ac yn yr awyr agored. Mae gan y lleoliad drefniadau pwrpasol er mwyn adnabod a chefnogi anghenion unigol plant, gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn casglu digon o wybodaeth am hoffterau, anghenion ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall cyn i'r plant gychwyn yn y lleoliad. Mae hyn yn galluogi'r staff i gynllunio'n effeithiol ar gyfer anghenion unigol y plant.

## Yr Amgylchedd DA

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn blaenoriaethu diogelwch y plant ac yn sicrhau bod y staff yn dilyn gweithdrefnau i gadw'r plant yn ddiogel. Er enghraifft, mae'r staff yn gofyn i ymwelwyr lofnodi'r llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd ac maent yn sicrhau bod yr adeilad a'r ardaloedd awyr agored yn ddiogel. Mae hyn yn sicrhau na all unigolion heb awdurdod ddod i mewn i'r safle. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad asesiadau risg ysgrifenedig cynhwysfawr ar waith. Mae'r rhain yn amlinellu unrhyw beryglon posibl i ddiogelwch y plant a'r camau a gymerwyd i reoli neu ddileu'r peryglon hyn. Mae'r rhain yn cael eu hadnewyddu'n flynyddol a chaiff asesiadau risg newydd eu creu cyn unrhyw weithgareddau newydd neu pan mae unrhyw beth yn cael eu canfod.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod pob ardal a ddefnyddir gan y plant yn cynnwys digon o le, yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda ac yn groesawgar. Mae'r ystafelloedd chwarae wedi eu haddurno'n ddeniadol, gydag esiamplau o waith y plant yn cael eu harddangos. Mae hyn yn rhoi teimlad o berthyn i'r plant ac yn eu helpu i setlo yn y lleoliad. Mae'r ardaloedd chwarae allanol yn cynnig amrywiaeth addas o gyfleoedd i'r plant ddatblygu eu sgiliau corfforol, gan gynnwys offer dringo, sleidiau, beiciau a sgwteri amrywiol. Caiff teganau ac adnoddau yn yr ardaloedd chwarae tu fewn eu storio ar lefel isel ac wedi eu trefnu'n dda mewn bocsys. Mae'r bocsys hyn wedi eu trefnu fel ei bod hi'n hawdd i'r plant weld beth sydd ynddynt. Mae cyfleusterau addas yn y toiledau, gyda sinciau a thoiledau lefel isel a photis er mwyn hybu annibyniaeth y plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amrywiaeth dda o deganau ac adnoddau sydd yn addas ar gyfer oedrannau a chamau datblygu'r plant.  Maent yn lân ac mewn cyflwr da. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad hefyd yn sicrhau bod cyflleoedd i'r plant archwilio deunyddiau naturiol. Er enghraifft, chwarae gyda dŵr, blociau pren yn yr ardal adeiladu a thwba tywod. Mae nifer fawr o'r tegannau wedi eu gwneud o bren ac mae amrywiaeth dda o ddeunyddiau wedi eu hailgylchu ar gael yn yr ardaloedd chwarae rôl a'r ardaloedd crefft.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth DA

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn dilyn polisiau a'r gweithdrefnau'r lleoliad yn effeithiol. Mae'r polisïau yn gynhwysfawr ac yn rhoi amlinelliad clir o'r gweithdrefnau i'w dilyn. Mae datganiad o ddiben y lleoliad yn cynnwys gwybodaeth fanwl ac yn cynnig disgrifiad cywir o'r gwasanaeth a gynigir. Mae hyn yn golygu y gall rhieni wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynghylch a yw'r lleoliad yn diwallu eu hanghenion nhw ac anghenion eu plentyn. Mae'r holl ddogfennau'n cael eu gwirio a'u hadnewyddu pob blwyddyn er mwyn sicrhau bod y wybodaeth ynddynt yn gyfredol. Mae holl ddogfennau a gweithdrefnau'r gwasanaeth ar gael yn y Gymraeg, ac mae'r lleoliad yn darparu'r Cynnig Gweithredol yr Iaith Gymraeg.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn awyddus i sicrhau eu bod yn parhau i ddatblygu a gwella. Maent yn gofyn yn rheolaidd am adborth ar lafar gan y rhieni yn ogystal â thrwy anfon holiaduron adborth at y rhieni a'r staff. Caiff adborth ei gasglu hefyd gan y plant drwy siarad â nhw ac arsylwi arnynt yn ddyddiol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi llunio adroddiad adolygu ansawdd gofal. Mae'r adroddiad yma'n amlinellu'r gwelliannau sydd eisoes wedi eu gwneud yn y lleoliad. Fodd bynnag, nid yw'r amlwg sut mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymateb i unrhyw argymhellion gan rieni na plant, ac nid yw'n amlinellu pa welliannau sydd wedi eu cynllunio ar gyfer y dyfodol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y staff yn cael hyfforddiant a chymorth rheolaidd i gyflawni eu rolau yn effeithiol. Mae ffeiliau'r staff yn gynhwysfawr ac yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol, gan ddangos bod gwiriadau recriwtio diogel ar waith. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gallu mynd at y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ar unrhyw adeg i drafod unrhyw broblemau neu eu hanghenion hyfforddiant. Caiff cofnodion o'r cyfarfodydd goruchwyliaeth a'r gwerthusiadau blynyddol eu cadw yn ffeiliau unigol y staff.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rhannu gwybodaeth â'r rhieni'n effeithiol. Mae staff yn cyfathrebu'n effeithiol a chyson gyda rhieni. Mae cofnodion trylwyr o amser y plant ieuengaf yn y lleoliad yn cynnwys yr hyn maent wedi ei fwyta, patrymau cysgu ac unrhyw wybodaeth berthnasol eraill. Yn ogystal â hyn, mae staff yn gyrru lluniau a sylwadau yn rheolaidd drwy negeseuon digidol preifat. Mae'r holiaduron adborth gan rieni yn rhoi canmoliaeth i'r lleoliad ac i'r gofal mae'r plant yn ei dderbyn.

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

Lle byddwn yn nodi nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Argymhellion ar gyfer Cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad (argymhellion) |
| Standard 12 - Food and drink | Sicrhau bod pob byrbryd sy'n cael eu cynnig i blant yn iach a chytbwys. |
| Standard 18 - Quality assurance | Sicrhau bod yr Adolygiad Ansawdd Gofal yn amlinellu sut mae'r pobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymateb i argymhellion gan rhieni, staff a plant ac yn alinellu'r gwelliannau a chynlluniwyd ar gyfer y dyfodol. |

Where we think it helpful, we may make best practice recommendations. These are to encourage settings that are doing well to become even better at helping children thrive.

| Arfer Gorau |
|---|
| Argymhelliad (argymhellion) |
| Cynnwys y nifer o blant a oedd yn bresennol, a'r amser a chyflanwyd yr ymarfer yn y cofnodion ymarferion tan. |
| Sicrhau bod rhieni a staff yn arwyddo cofnodion damweiniau. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 06/11/2023